Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

tai@sirddinbych.gov.uk
01824 706000




# Diweddariad Cymunedol

Gorffennaf 2021

**Annwyl Breswylydd,** **Iau 2021**

**Llwyn Eirin – cartrefi newydd ar dir ger Tan y Sgubor, Dinbych – Diogelwch dros yr haf**

Mae diogelwch yn bwysig iawn i ni, ac i'n contractwr, Brenig Construction. Fe fyddan nhw'n gwneud popeth posibl er mwyn i'w gwaith fod mor ddiogel a phosibl yr haf hwn. Er bod safleoedd adeiladu'n ymddangos yn lle da i gael hwyl a chyffro wrth chwarae, mae yno beryglon difrifol ac nid cae chwarae ydyn nhw.



Er mwyn trefniadau diogelwch ychwanegol ac i gadw pawb yn ddiogel, mae'r safle wedi gosod nifer o'r 'Dalecs', sef camerâu gaiff eu rheoli o bell, sy'n sensitif i symudiad. Fe fyddan nhw'n tynnu llun unrhyw un sy'n eu 'deffro' ar ôl i'r safle gau ar ddiwedd dydd.

Bydd Brenig Construction yn cymryd pob rhagofal posibl i sicrhau fod y safle'n ddiogel, ond rydym angen eich help chi! Hoffem ofyn i chi gynorthwyo i gadw plant a phobl ifanc y gymuned leol yn ddiogel dros yr haf o gwmpas ein safle adeiladu.

Gallwch ein helpu i gadw pawb yn ddiogel drwy:

- Atgoffa pawb fod angen cadw'n glir o safleoedd adeiladu.
- Helpu eraill i feddwl am beryglon sydd ar safleoedd adeiladu.
- Adrodd am unrhyw un rydych chi'n ei weld yn chwarae ar y safle adeiladu, yn dringo ar offer, ffensys ayyb. Gallwch wneud hyn drwy ffonio 101.
- Mae'r peryglon a'r risgiau yn cynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i:
  - Sgaffaldau
  - Disgyn o uchder
  - Offer a pheiriannau
  - Tyllau

Am wybodaeth gyfredol am y prosiect, ewch i https://www.taisirddinbych.co.uk/LlwynEirin/ neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch a thîm Brenig ar 01492 514934.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus gyda'r prosiect hwn.